PWYLLGOR CYNLLUNIO

DYDD MERCHER, 10 AWST 2022

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Stubbs(Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Humphreys, Ahmed, Hunt, Jones, Joyce, Naughton, Reid-Jones, Robson, Sattar a/ac Wong |

20 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb ar gyfer y cyfarfod hwn.

21 : DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaed y datganiadau buddiannau canlynol yn unol â'r Cod Ymarfer Aelodau:

| Cynghorydd | Eitem | Natur y Buddiant |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Jackie Jones | 5a | Personol a Rhagfarnus – Cynghorydd Ward |
| Y Cynghorydd Jackie Jones | 5b | Personol a Rhagfarnus – Cynghorydd Ward |
| Y Cynghorydd Jackie Jones | 5e | Personol a Rhagfarnus – Cynghorydd Ward |
| Y Cynghorydd Ed Stubbs | 5c | Personol a Rhagfarnus - Wedi mynegi barn ar y cais |
| Y Cynghorydd Irene Humphries | 5a | Personol a Rhagfarnus – yn eistedd ar Gyngor Iechyd Caerdydd a'r Fro sy'n cefnogi'r cais |
| Y Cynghorydd Irene Humphries | 5b | Personol a Rhagfarnus – yn eistedd ar Gyngor Iechyd Caerdydd a'r Fro sy'n cefnogi'r cais |
| Y Cynghorydd Dan Naughton | 5a | Personol a Rhagfarnus – wedi mynegi barn yn y gorffennol |
| Y Cynghorydd Dan Naughton | 5b | Personol a Rhagfarnus – wedi mynegi barn yn y gorffennol |

22 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2022 yn gofnod cywir, yn amodol ar y diwygiad canlynol i Gofnod Rhif 14:

| Cynghorydd | Eitem | Natur y Buddiant |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Dan Naughton | 2/00475/MJR - Ysbyty'r Eglwys Newydd | Personol a Rhagfarnus – wedi mynegi barn yn y gorffennol |

23 : DEISEBAU

1. 22/00725/MJR, Ysbyty'r Eglwys Newydd, Heol y Parc

2. 22/00802/MJR, Tir i'r Gogledd-orllewin o Gaeau Chwarae Ysbyty'r Eglwys Newydd.

3. 22/00885/MNR, 76 Heol y Maendy, Cathays

4. 22/00711/MNR, 100 Heol y Sblot, y Sblot

Mewn perthynas ag 1, 2 a 4 uchod, siaradodd y deisebwr ac ymatebodd yr asiantau.

24 : CEISIADAU RHEOLI DATBLYGU

Ystyriodd y Pwyllgor y rhestr o geisiadau rheoli datblygu a gyflwynwyd yn unol â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

PENDERFYNWYD: Y dylai'r Pwyllgor hwn yn unol â phwerau a ddirprwyir iddo benderfynu ar y ceisiadau rheoli datblygu canlynol yn ôl yr argymhelliad a nodir yn adroddiadau Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd, yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau pellach fel y manylir arnynt isod, a rhoi gwybod am y penderfyniadau'n unol ag Adran 70 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 neu Adran 74 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.

CEISIADAU WEDI'U CYMERADWYO:

22/00725/MJR – YR EGLWYS NEWYDD A THONGWYNLAIS

TIR I'R GOGLEDD-ORLLEWIN O GAEAU CHWARAE YSBYTY'R EGLWYS NEWYDD
Cyflawni Amodau 8 (Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu) a 10 (Lliniaru a Monitro) 20/01110/MJR

Yn amodol ar y nodyn canlynol:
"Mynegodd yr aelodau eu barn y dylid cyfyngu oriau o weithio i'r oriau penodedig, er nodon nhw y byddai angen caniatâd yr Awdurdod Cynllunio Lleol a'r Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir ar gyfer unrhyw waith y tu hwnt i'r oriau gweithredu y cytunwyd arnynt"

22/00802/MJR – YR EGLWYS NEWYDD A THONGWYNLAIS

TIR I'R GOGLEDD-ORLLEWIN O GAEAU CHWARAE YSBYTY'R EGLWYS NEWYDD.
Cyflawni amod 17 (Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu) 17/01735/MJR

Yn amodol ar y nodyn canlynol:
"Mynegodd yr aelodau eu barn y dylid cyfyngu oriau o weithio i'r oriau penodedig, er nodon nhw y byddai angen caniatâd yr Awdurdod Cynllunio Lleol a'r Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir ar gyfer unrhyw waith y tu hwnt i'r oriau gweithredu y cytunwyd arnynt"

22/00711/MNR – Y SBLOT

100 HEOL Y SBLOT
Estyniad ar y llawr gwaelod, dormer cefn ac addasiadau i greu tŷ amlfeddiannaeth sui generis 7 ystafell wely.

CEISIADAU WEDI'U GWRTHOD

22/00885/MNR – CATHAYS

76 HEOL Y MAENDY
Newid defnydd o dŷ annedd C3 i dŷ amlfeddiannaeth i wyth person (sui generis) gydag estyniadau ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf yng nghefn yr eiddo, estyniad i do'r dormer yng nghefn yr eiddo, a gwaith i fewnosod ffenestr yn y to blaen ac addasiadau cysylltiedig

RHESWM: Bydd defnyddio'r eiddo fel Tŷ Amlfeddiannaeth 8 ystafell wely o bosibl yn gwaethygu ymhellach yr effeithiau andwyol cronnol annerbyniol ar amwynderau'r ardal yn rhinwedd:

- nifer uwch o drigolion dros dro sy'n arwain at lai o gydlyniant cymunedol ac yn tanseilio'r amcanion o sicrhau cymuned defnydd cymysg gynaliadwy, yn groes i Bolisi KP5, Polisi KP13 a Pholisi H5 Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd (2006-2016) a chyngor a geir yn y Canllaw Cynllunio Atodol ar Dai Amlfeddiannaeth (2016).

- cyfran uwch o drigolion dros dro sy'n arwain at gynnydd yn y galw cronnol ar seilwaith cymdeithasol, cymunedol a ffisegol, yn groes i Bolisi KP5, Polisi KP13 a Pholisi H5 Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd (2006-2026) a chyngor a geir yn y Canllaw Cynllunio Atodol ar Dai Amlfeddiannaeth (2016).

1. Bydd defnyddio'r eiddo fel Tŷ Amlfeddiannaeth 8 ystafell wely'n arwain at gynnydd yn nifer y Tai Amlfeddiannaeth yn y cyffiniau er anfantais i'r gymuned bresennol gan effeithio ar ei chyfansoddiad, ei chydlyniant, ei chymeriad, ei hymarferoldeb a'i hymdeimlad o le, yn groes i Bolisi KP5, Polisi KP13 a Pholisi H5 Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd (2006-2026), a'r Canllaw Cynllunio Atodol ar Dai Amlfeddiannaeth (2016).

CEISIADAU WEDI'U GOHIRIO

18/00736/MNR – YR EGLWYS NEWYDD A THONGWYNLAIS

71 HEOL YR EGLWYS
Cynnig dymchwel y garej / adeilad allanol, adeiladu annedd ar wahân 2 lawr newydd, garej ar wahân newydd gyda stiwdio uwchben a chyswllt gwydr i'r annedd bresennol.

RHESWM: O ganlyniad i broblem dechnegol gyda'r system feddalwedd newydd a Chynghorwyr yn methu siarad.

25 : CEISIADAU WEDI EU PENDERFYNU GAN BWERAU DIRPRWYEDIG – GORFFENNAF 2022

Nodwyd

26 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim

27 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - 8 MEDI 2022